**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

15 Tachwedd 2017

Annwyl Gyfaill

**Ymchwiliad i'r Rhaglen Cefnogi Pobl**

Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i Raglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru **adroddiad** ar y Rhaglen Cefnogi Pobl ar 31 Awst 2017, ac mae'r Pwyllgor wedi derbyn **ymateb** gan Lywodraeth Cymru i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion ei **chynlluniau cyllideb** wedi creu rhywfaint o ansicrwydd ynghylch sut y bydd y cyllid Cefnogi Pobl yn cael ei reoli yn y dyfodol, a chaiff hyn ei ystyried fel rhan o waith y Pwyllgor.

Bydd yr ymchwiliad yn ystyried dulliau llywodraethu cyffredinol a rheolaeth y Rhaglen Cefnogi Pobl. **Nid oes gan** y Pwyllgor rôl o ran craffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru, ond gall ystyried y modd y gweithredir newidiadau cyllidebol a'u heffaith.

Er mwyn helpu gyda'i ymchwiliad, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn ar y materion a ganlyn:

1. **Effaith datblygiadau polisi ehangach ar y rhaglen, gan gynnwys**:
    - Eglurder cyffredinol amcanion y Rhaglen;
    - Goblygiadau adolygiad Llety â Chymorth Llywodraeth y DU, a'r ymateb sy'n dod i'r amlwg iddo;
    - Sut y gallai Llywodraeth Cymru wella ei dulliau cyfathrebu ynghylch y blaenoriaethau ar gyfer y Rhaglen ac effaith datblygiadau ehangach;
    - Beth fyddai'r ffordd orau i alinio gwaith y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol gyda threfniadau llywodraethu cydweithredol eraill;
    - Y gwersi i'w dysgu yn sgîl effeithiolrwydd cymysg gwaith rhanbarthol dros y pum mlynedd diwethaf a'i effaith;
    - I ba raddau y mae'r trefniadau llywodraethu a rheoli ar gyfer y Rhaglen yn adlewyrchu ffyrdd o weithio a ddisgwylir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

2. **Monitro a gwerthuso**

   - Sut y defnyddir data monitro / canlyniadau i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch gwariant ar y rhaglen ac i fonitro contractau;
   - Y fframwaith canlyniadau diwygiedig y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig, ac i ba raddau y bydd yn mynd i'r afael â chyfyngiadau'r fframwaith presennol;
   - Beth yw'r ffordd orau i gyfleu unrhyw drefniadau fframwaith canlyniadau diwygiedig a'u rhoi ar waith;
   - Cyfleoedd eraill i gryfhau dulliau monitro a gwerthuso, gan gynnwys wrth asesu gwerth cymharol am arian gwasanaethau cymaradwy.

3. **Dosbarthiad cyllid y Rhaglen, a chynllunio ariannol gan gynnwys:**

   - Y materion y mae angen eu hystyried wrth ddatblygu a gweithredu unrhyw fformiwla ariannu newydd;
   - Sut y mae pwysau o ran y gyllideb ac ansicrwydd cyllido wedi effeithio ar gynllunio gwasanaethau a'u darparu;
   - Y rhesymau dros yr amrywiad eang a nodwyd o ran cymorth ariannol i wahanol grwpiau cleientiaid ar draws awdurdodau lleol;
   - Y rhesymau dros y newid amlwg yng nghyfran gyffredinol cronfeydd y rhaglen a wariwyd ar gefnogaeth symudol a chefnogaeth sefydlog;
   - I ba raddau y mae prosesau a gwariant ar gynllunio lleol a rhanbarthol yn adlewyrchu anghenion y mae tystiolaeth helaeth amdanynt, yn hytrach na phatrymau hanesyddol.

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion yn Gymraeg neu'n Saesneg, a bydd yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar maes o law.

Dylai cyflwyniadau gynnwys paragraffau rhifedig, a chanolbwyntio ar y materion a nodir uchod. Gweler y canllawiau i dystion sy'n darparu tystiolaeth i bwyllgorau.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig, (**nid** ar ffurf dogfen PDF, yn ddelfrydol) i **SeneddArchwilio@Cynulliad.Cymru**

Fel arall, ysgrifennwch at:

Clerc y Pwyllgor – y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

CF99 1NA

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **22 Rhagfyr 2017.** Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

## Datgelu gwybodaeth

Mae polisi'r Cynulliad ynghylch datgelu gwybodaeth i'w weld yma. Cofiwch ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Neu, mae copi caled o'r polisi hwn i'w gael drwy gysylltu â'r Clerc (0300 200 6565).

Yn gywir



**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

**Rhestr yr ymgynghoriad:**

Mae'r Pwyllgor wedi cysylltu â'r sefydliadau a ganlyn mewn perthynas â'r ymchwiliad hwn. Os ydych yn teimlo bod sefydliadau eraill a all fod am ymateb, a fyddech cystal â sôn wrthynt am yr ymgynghoriad.

- Shelter Cymru
- Sefydliad Tai Siartredig Cymru
- Aelodau annibynnol y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Arweinyddiaeth Tai Cymru
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- y Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl
- y Grŵp Cyllid Strategol Cefnogi Pobl
- y Grŵp Llywodraethu Cefnogi Pobl
- awdurdodau lleol unigol a'u swyddogion arweiniol Cefnogi Pobl
- y chwe Phwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol
- sefydliadau darparwyr unigol a gynrychiolir gan Gartrefi Cymunedol Cymru (landlordiaid cymdeithasol cofrestredig) a Cymorth Cymru (fel, Llamau a'r Wallich).